



Arolygiaeth Prawf EF

Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2022/2023

Cyflwyniad

1. Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 01/04/22 i 31/03/23.
2. Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throsteddau ieuentid yng Nghymru a Lloegr. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil a chynnyrch ymarfer effeithiol yn darparu dyfarniadau ac arweiniad awdurdodol ar sail tystiolaeth. Defnyddiwn ein llais i ysgogi newidiadau i'r system, gyda ffocws ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau,
3. Rydym yn derbyn cyllideb ddirprwyedig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef £6.54 miliwn ar gyfer 2022/23.
4. Mae'r sefydliad sy'n cael ei arwain gan Brif Arolygydd Prawf EF yn ymrwymedig i gyflawni ein cyfrifoldebau yn unol â chynllun yr Iaith Gymraeg 1993, y byddwn, wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, fel yr amlinellwyd yn ein cynllun iaith Gymraeg cymeradwy.
5. Mae'r Arolygiaeth yn cyflogi un aelod o staff llawn amser sy'n gallu siarad Cymraeg, sef Pennaeth yr arolygiadau thematig ac ar y cyd.

Recriwtio

6. Rydym yn parhau i geisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. Rydym wedi diweddarau geiriad ein hysbysebion swyddi i ddenu siaradwyr Cymraeg a'i gwneud yn glir ein bod yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn cynnig cyfle i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg drafod y swydd yn Gymraeg a gallwn ddarparu'r hysbyseb a'r swydd-ddisgrifiad yn Gymraeg. Derbyniodd un ymgeisydd y cynnig i gael trafodaeth yn Gymraeg. Rydym yn parhau i wneud defnydd rheolaidd o'n perthnasoedd sefydledig gyda rhanddeiliaid yn y sector cyfiawnder yng Nghymru, er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'n swyddi gwag. O ganlyniad i'n hymgyrch recriwtio, rydym wedi recriwtio un arolygydd sy'n siarad Cymraeg, a disgwylir iddynt ymuno â'r arolygiaeth yn ystod haf 2023.
7. Yn ogystal â'n hymdrechion i recriwtio siaradwyr Cymraeg, rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru a Thimau Troseddau Ieuentid yng Nghymru i recriwtio a hyfforddi 'aseswyr lleol' sy'n siarad Cymraeg. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i recriwtio aseswyr cyfiawnder ieuentid lleol sy'n siarad Cymraeg ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar eu cyfer yn ystod yr hydref 2023.
8. Hefyd, rydym wedi recriwtio un arolygydd y telir ffioedd iddynt, sy'n siarad

Cymraeg, a fydd yn gweithio ar arolygiadau yng Nghymru. Yn ogystal, rydym yn bwriadu ymestyn ein cynllun mentora a chysgodi i siaradwyr Cymraeg, lle bydd aelodau presennol ein tîm o staff arolygu yn cynnig cymorth ac arweiniad un i un i ymgeiswyr ar hyd y broses recriwtio.

Cynllunio a chyflenwi gwasanaeth

- 9.** Rydym yn cynllunio ac yn gweithredu arolygiadau yng Nghymru o waith troseddau oedolion a throseddau ieuencid, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS). Wrth wneud hynny rydym yn hyrwyddo ein cynllun iaith Gymraeg ac rydym yr un mor ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.
- 10.** Ar ôl i ni recriwtio a hyfforddi arolygwyr neu aseswyr lleol sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio darparu o leiaf un Arolygydd sy'n siarad Cymraeg ar ein rhaglenni arolygu darpariaeth graidd ieuencid ac oedolion yng Nghymru. Rydym yn cysylltu â'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol – rhanbarth Cymru a Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru ar adeg cyhoeddi arolygiaethau a gofyn iddynt ein hysbysu ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw rai o'u defnyddwyr gwasanaeth, staff neu reolwyr strategol gael eu cyfweld yn Gymraeg.
- 11.** Mae ein harolygiadau thematig yn canolbwyntio ar feysydd penodol gwaith troseddau ieuencid ac oedolion ar draws Cymru a Lloegr. Pan fydd hyn yn cynnwys arolygu ardal yng Nghymru, gofynnwn hefyd ymlaen llaw a fyddai'n well gan rywun gael eu cyfweld yn Gymraeg er mwyn i ni allu trefnu Arolygydd sy'n siarad Cymraeg.
- 12.** Mae ein gwaith arolygu craidd o waith troseddau ieuencid ac oedolion yng Nghymru yn cynnwys canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r sefydliad sy'n cael ei arolygu wedi nodi ac ymateb i'r dewis i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Mae'r trafodaethau a gynhelir gyda staff hefyd yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod hawl plant a phobl ar brawf i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 13.** Gellir cyflwyno gwybodaeth y mae Arolygiaeth Prawf EF yn gofyn amdani cyn arolwg yn Gymraeg neu Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed pob cyflwyniad o'r fath yn Saesneg.

Arolygiadau a gynhelir yng Nghymru

- 14.** Mabwysiadwyd ymagwedd gyfunol o weithgarwch arolygu wyneb yn wyneb ac o bell yn 2022/2023 ac rydym wedi parhau i arolygu gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddau ieuencid ar y safle ac o bell.
- 15.** Rydym wedi cwblhau pedwar arolwg o wasanaethau troseddau ieuencid yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (YJS) Caerdydd, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (YOS) Bro Morgannwg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Blaenau Gwent a Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen. Darparwyd y llythyr cyhoeddi, y daflen wybodaeth a ffurflen gydsynio plant a'r daflen gwybodaeth i staff yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer arolygiadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd a Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen.

16. Yn anffodus, ni ddigwyddodd hyn ar gyfer arolygon Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg na Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili. Ymddiheurwn am yr amryfusedd hwn, ac rydym wedi rhoi mesurau ar waith i geisio gwneud yn siŵr na fydd hyn yn digwydd eto, gan gynnwys cynnal cyfarfod rhwng arweinydd yr Iaith Gymraeg a'r Pennaeth Arolygu perthnasol i gadarnhau'r hyn a ddisgwylir.
17. Roeddem wedi cynllunio i gynnal dau arolwg pellach o'r gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru. Gofynnodd y ddau wasanaeth i'r arolygiadau gael eu hoedi hyd nes y gallem gyflawni'r galw i'r cyfweiliadau gael eu cynnal yn Gymraeg. Fe wnaethom gytuno i wneud hyn a hysbysu'r ddau wasanaeth bod gwella ein cynnig iaith Gymraeg yn flaenoriaeth sefydliadol.
18. Rydym wedi cwblhau tri arolwg thematig sydd wedi cynnwys ardaloedd yng Nghymru, sef 'Rheoli troseddwyd yn y ddalfa (cyn ac ar ôl eu rhyddhau)', 'Gwaith a gynhaliwyd, y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Prawf i leihau'r achosion o gam-drin domestig a diogelu dioddefwyr', a 'Gwrth derfysgaeth'.
19. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweiliadau arolygiadau yn Gymraeg yn 2022/2023, sy'n cynrychioli gostyngiad ers 2021/22, pan wnaethom gynnal saith cyfweiliad yn yr iaith Gymraeg.

Delwedd gyhoeddus y sefydliad

20. Rydym wedi dechrau gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu a diweddarau ein cynllun Iaith Gymraeg.
21. Rydym yn defnyddio logo Cymraeg ar gyfer pob adroddiad a chyfathrebiad yn Gymraeg.
22. Mae ein bathodynau enw mewn fformat dwyieithog yn ogystal â cherdyn busnes ein huwch reolwr a'r Arolygydd sy'n bennaf gyfrifol am ein cynllun Iaith Gymraeg. Felly, gellir adnabod arolygwyr sy'n siarad Cymraeg yn glir drwy eu bathodynau enw.
23. Rydym wedi diweddarau ein gwefan i roi mwy o amlygrwydd i'r dudalen Gymraeg benodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr arolygiaeth, ein hadroddiadau, ymgynghoriadau, dogfennau corfforaethol a chyfleoedd gyrfa yn y Gymraeg.
24. Cyhoeddir adroddiadau ar ein harolygiadau yng Nghymru ar y cyd yn Gymraeg a Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi pum adroddiad arolygu thematig sy'n gysylltiedig â Chymru a Lloegr, a phum adroddiad ar y gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru.
25. Cyhoeddwyd adroddiadau yn Gymraeg cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn gan gyfieithwyr allanol, mewn cysylltiad â'r arolygiadau hyn. Mae adroddiadau cyhoeddedig yn cael eu hyrwyddo hefyd gyda theitl dwyieithog ar Twitter.
26. Yn ein harolwg o'r gwasanaeth troseddau ieuenctid ym Mhen-y-bont ar Ogwr, canfuwyd bod cymorth yn cael ei gynnig gan staff sy'n siarad Cymraeg i bob plentyn ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
27. Yn ein harolwg ar y cyd o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yng Nghaerdydd, canfuwyd bod trefniadau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg wedi gwella ond eu bod yn parhau i fod yn waith ar y gweill. Mae'r swyddog addysg wedi ail-ddylunio'r llyfryn gwybodaeth i blant, i'w wneud yn fwy hygyrch ac mae'n datgan yn glir y gallant gael

mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelsom dystiolaeth o waith i ddatblygu map prosesau, rhestr wirio a chynllun gwaith i wella'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn yr ardal hon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau darparu staff gweinyddol, rheoli achos ac arweinyddiaeth sy'n siarad Cymraeg i blant sy'n siarad Cymraeg. Yn yr achos a arolygwyd, canfu'r arolygydd Estyn y gallai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r asiantaethau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth wneud mwy i wella a hybu gwerth y Gymraeg fel sgil cyflogaeth yng Nghymru, neu annog dysgwyr a allai siarad Cymraeg i ddefnyddio'r gallu hwn.

28. Yn ein harolwg o wasanaeth troseddau ieuenctid ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, canfuom y gall staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at gyrsiau hyfforddiant drwy Fwrdd Diogelu Gwent a'r Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cyfathrebu Ehangach

29. Mae Arolygiaeth Prawf EF wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gaffael gwasanaethau cyfieithu newydd, sy'n fwy cyfarwydd i wasanaethau lleol.
30. Mae ceisiadau am gyfweiliadau gyda'r cyfryngau Cymraeg yn cael eu cyfeirio at ein huwch reolwr sy'n siarad Cymraeg. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath, yn ystod y cyfnod adrodd.
31. Nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau neu ohebiaeth yn ein swyddfeydd ym Manceinion a Llundain drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.
32. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi cadw mewn cysylltiad ag Arolygiaethau partner, gan gynnwys cysylltu i hybu datblygiad trefniadau arolygu thematig ar y cyd yng Nghymru.
33. Mae ein dull ragweithiol at ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cynnwys cyswllt parhaus gydag arweinwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru (WCCSJ). Rydym hefyd yn cael ein cynrychioli ar fforwm Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru.
34. Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i gynyddu ein dealltwriaeth o'r trefniadau datganoledig ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, am eu bod yn berthnasol i'n rôl yn arolygu gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid.

Hyfforddi a datblygu staff

35. Darparwyd mewnbwn penodol i staff arolygu'r tîm ieuenctid ynglŷn â hanes yr iaith Gymraeg, ein Cynllun Iaith Gymraeg ac arolygu yng Nghymru, gan gynnwys darparu hyfforddiant 'arolygu yng Nghymru' i arolygwyr ieuenctid. Mae pob aelod o staff newydd yn parhau i dderbyn trosolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu, sy'n ymgorffori ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiaadau ar gyfer arolygu yng Nghymru.
36. Mae'r tîm arolygu gwasanaethau ieuenctid wedi datblygu canllaw y disgwylir i bob aelod o'r tîm fod yn gyfarwydd ag ef, cyn cynnal arolwg yng Nghymru. Byddwn yn datblygu canllawiau tebyg ar gyfer staff arolygu gwasanaethau prawf.

Trefniadau yn y dyfodol

- 37.** Bydd Arolygydd Arolygiaeth Prawf EF, Tony Kirk, yn parhau i fod yn bennaf gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, ar ran Prif Arolygydd Prawf EF.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'TK', written in a cursive style.

Tony Kirk

Arolygydd Arolygiaeth Prawf EF

Ar ran

Justin Russell

Prif Arolygydd Prawf EF